

Pecyn Cymorth - Gwneud eich Cymdeithas Twristiaeth yn fwy cynaliadwy

Cyflwyniad

Nid yw creu, adeiladu a chynnal Cymdeithas Twristiaeth (CT) lwyddiannus yn hawdd. Mae'n gofyn am lawer o adnoddau. Mae'r bobl hynny sy'n rhan o'n diwydiant ni'n dueddol o fod yn hapusach yn gweithio fel unigolion, ac nid yw 'ymuno i mewn' yn dod yn naturiol iddynt - bydd angen eu perswadio. Mae llawer hefyd yn awr yn edrych i'r byd digidol er mwyn eu cymunedau buddiant yn hytrach na mudiadau traddodiadol. Ond mae dyfodol twristiaeth yng Nghymru'n dibynnu ar rwydwaith iach o Gymdeithasau Twristiaeth.

Mae Cymdeithasau Twristiaeth (CT) i'w cael mewn pob lliw a llun, a maint. Mae llawer o'r Cymdeithasau yng Nghymru wedi bod yn weithredol am amser hir, ac roeddent yn bodoli, mewn rhai achosion, cyn y byrddau twristiaeth 'swyddogol'. Gall fod yn fuddiol i edrych ar GTau o safbwynt y categorïau diddordeb, y cwmpas gweithredol a'r gweithgarwch canlynol gyda phob CT yn gallu dewis a dethol rhyngddynt:

Diddordeb	Cwmpas Gweithredol	Gweithgarwch
Lle Sector Proffesiwn	Rhyngwladol Y DU Cymru Rhanbarthol Lleol / Cyrchfan Cymuned	Ansawdd Cynnyrch Datblygu Cynnyrch Marchnata/ Gwybodaeth Creu Cynnwys Datblygu Busnes Buddiannau i aelodau Cyfathrebu Rhwydweithio Eiriolaeth Datblygiad proffesiynol parhaus / Hyfforddiant Partneriaethau Cyrchfan Meincnodi Contractau Masnachol

Ond er gwaethaf y gwahaniaethau mewn hanes, cwmpas a maint, mae yna set o nodweddion sy'n gyffredin i bob Cymdeithas Twristiaeth lwyddiannus. Gellir crynhoi'r 'ffactorau llwyddiant critigol' fel a ganlyn:

- Gweledigaeth gyffredin a set o nodau ac amcanion (positif)
- Rôl glir a phendant sy'n diwallu angen a brofwyd
- Gweithgarwch/ cynllun busnes realistig sy'n gymesur â'r anghenion a'r adnoddau sy'n ymdrechu i gyflawni nifer cyfyngedig o weithgareddau o ansawdd uchel
- Enw da sy'n seiliedig ar ganlyniadau
- Trefniadau llywodraethu ffurfiol a thryloyw gyda rolau clir wedi'u dyrannu a chynllunio effeithiol ar gyfer olyniaeth
- Sawl ffynhonnell cyllido a sefydlogrwydd ariannol
- Ymrwymiad pendant i weithio mewn partneriaeth o fewn a thu hwnt i'w 'thiriogaeth'
- Lefel uchel o dreiddgarwch yn ei chymuned buddiant ei hun - i ddangos bwriad sy'n wirioneddol gynrychioliadol
- Ymrwymiad i gyfathrebu mewnol ac allanol gyda phwynt cyswllt pwrpasol
- Ymagwedd gynhwysol tuag at yr aelodau
- Y gallu i gyrraedd maint sy'n ei gwneud yn fwy hunan gynhaliol
- Gweithgareddau pwrpasol, positif ac sy'n codi gobeithion - creu ymdeimlad o gyffro
- Arweinyddiaeth glir gan y sector preifat sy'n adlewyrchu 'personoliaeth' eu mudiad
- Ymagwedd fasnachol a phroffesiynol tuag at weithgarwch 'gwirfoddol'

Yn ogystal â helpu Cymdeithasau i fod yn fwy cynaliadwy, mae ffactorau fel y rhain yn bwysig hefyd os ydych chi am ddenu cefnogaeth o'r sector cyhoeddus, partneriaid masnachol neu noddwyr.

Gadewch i ni edrych yn fwy manwl ar bob un ohonynt

Gweledigaeth gyffredin a set o nodau ac amcanion (positif)

A yw eich holl randdeiliaid yn deall gwir ddiben eich mudiad a'r hyn yr ydych chi'n ceisio'u cyflawni? Pa bryd wnaethoch chi edrych arnynt ddiwethaf ac a ydych chi

wedi eu hysgrifennu ar bapur? A ydynt yn 'ateb y galw' o hyd? Dylid edrych ar eich Gweledigaeth a'ch Amcanion bob ychydig o flynyddoedd, a dylid edrych ar eich amcanion yn amlach na hynny.

A ydych chi 'o blaid' rhywbeth yn hytrach nag 'yn ei erbyn'? Daw rhai mudiadau i fodolaeth fel adwaith i fygythiad real neu dybiedig a newid i'r hen drefn. Mae eraill yn dod at ei gilydd o ganlyniad i ddigwyddiad neu ben blwydd digwyddiad penodol. Mae profiad wedi dangos bod cymdeithasau â nodau positif a mwy tymor hir yn fwy tebygol o fod yn rhai hirhoedlog.

Rôl glir a phendant sy'n diwallu angen a brofwyd

Mae digonedd o Gymdeithasau Twristiaeth yng Nghymru - dros 70 yn ôl y cyfrif diwethaf - felly mae'n bwysig bod gan eich un chi set o swyddogaethau a gwasanaethau y mae angen amdanynt ac sy'n benodol i chi. Edrychwch ar beth mae sefydliadau eraill yn ei gynnig i'ch rhanddeiliaid. Os ydynt yn gwneud pethau tebyg yn well yna ewch ati i drafod ac i weld beth allwch ei gynnig trwy gydweithredu mwy â hwy.

Peidiwch â meddwl bod eich rôl yn un unigryw - mae'n debyg y bydd gan eich rhanddeiliaid gysylltiad â nifer o rwydweithiau a mudiadau eraill a byddant yn gwybod pwy sy'n cynnig y gwerth gorau.

Gweithgarwch/ cynllun busnes realistig sy'n gymesur â'r anghenion a'r adnoddau sy'n ymdrechu i gyflawni nifer cyfyngedig o weithgareddau o ansawdd uchel

Ni fydd angen cynllun busnes manwl ar bob Cymdeithas (heblaw i ategu cais am gyllid sylweddol) ond mae'n bwysig disgrifio'n eglur ac yn syml 'beth' sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn neu ddwy nesaf, ac yn ddelfrydol bydd hynny wedi'i ategu gan y 'pam', 'sut', 'pwy', 'pryd' a 'faint' (amser ac arian).

Bydd dull o'r fath yn help i weld beth all y Gymdeithas ei gyflawni'n ymarferol gyda'r adnoddau sydd ar gael iddi a'r hyn y mae yn y sefyllfa orau i'w gyflawni. Bydd cynllun y cytunwyd arno'n eich helpu i ganolbwyntio ar wneud llai o bethau, ond yn well, a gwrthsefyll y demtasiwn i wneud popeth i bawb.

Wrth ddatblygu eich cynllun gallwch weld sut y gall helpu i gyflawni gofynion penodol y cynllun cyrchfannau lleol neu Strategaeth Twristiaeth Cymru - Partneriaeth ar gyfer Twf, gan adael i eraill ganolbwyntio ar bethau eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych chi am wneud cais am arian o ffynonellau cyhoeddus.

Enw da sy'n seiliedig ar ganlyniadau

Mae cadw at ac adeiladu ar y pethau rydych yn eu gwneud yn dda hefyd yn rhoi hwb i'ch enw da, nid yn unig ymhlith y rhai rydych yn awyddus i'w cynrychioli ond hefyd ymhlith ystod ehangach o randdeiliaid a all gael dylanwad positif ar linellau cymorth. Sut allwch chi wella a diogelu eich enw da trwy eich cyfathrebiadau, eich gweithgareddau a'ch gweithredoedd?

Trefniadau llywodraethu ffurfiol a thryloyw gyda rolau clir wedi'u dyrannu a chynllunio effeithiol ar gyfer olyniaeth

Fel yn achos cynllunio busnes gall lefel yr atebolrwydd a chraffu amrywio, yn ôl lefelau gweithgarwch a throsiant, ond mae'n bwysig bod gan bob Cymdeithas Twristiaeth drefniadau llywodraethu eglur. A yw'n amlwg sut mae eich sefydliad wedi'i drefnu e.e. bwrdd / pwyllgor, cyfarfodydd cyffredinol, gweithgorau ac ati, pwy sy'n gyfrifol am beth, e.e. Cadeirydd, Trysorydd, Ysgrifennydd ac yn y blaen a sut (a pha mor aml) y gwneir penodiadau?

Mae'n anorfod bod y rhan fwyaf o waith unrhyw Gymdeithas yn cael ei ysgwyddo gan nifer fach o bobl, felly mae'n bwysig bod pob un ohonynt yn gwybod yn union pa rolau y gofynnir iddynt eu cyflawni. Gall helpu i ddatblygu matrices i weld pa flaenoriaethau sydd angen eu cyflawni trwy broses recriwtio, gan gofio bod pob

ymgeisydd yn debygol fod yn gyfrifol am sawl rôl wahanol - dyma enghraifft o gymdeithas twristiaeth cyrchfan nodweddiadol lle mae profi sail gynrychiolaeth eang yn bwysig. (Mae'r enghraifft yn seiliedig ar gymdeithas go iawn gyda bwrdd a thua dwsin o gyfarwyddwyr).

Swyddogaeth / Rôl Arweiniol y Bwrdd	Arbenigedd	Sector	Themâu'r Cynnyrch	Daearyddiaeth
Cadeirydd	Cyfreithiol	Gwestai	Cerdded	Trefol
Is-gadeiryddion	Ariannol / Cyllid	Gwely a Brecwast / Llety i Westeion	Golff	Gwledig
Ysgrifennydd y Cwmni	Marchnata	Hunan arlwyo	Chwaraeon dŵr	Arfordirol
Trysorydd	TG	Carafanau a Gwersylla	Treftadaeth	
Ysgrifenyddiaeth	Rheoli Prosiectau	Golff	Llesiant	
Cyfathrebu	Adnoddau Dynol	Gweithgarwch Antur	Cerddoriaeth	
Aelodaeth	Gwerthu	Atyniadau	Busnes	
Digwyddiadau		Digwyddiadau	Addas i Deuluoedd	
Datblygiad Proffesiynol Parhaus		Bwyd a Diod	Beicio	
Datblygu Cynnyrch		Manwerthu		
Rheoli Cyrchfannau		Y Celfyddydau a Diwylliant		
		Trafnidiaeth		
		Llysgenhadon		

Yng Nghymru, mae'n ymddangos ein bod yn byw yn ôl yr ymadrodd, 'Os oes angen gwneud rhywbeth, gofynnwch i berson prysur' felly mae'r rhai sy'n barod eu cymwynas yn aml yn cael eu llethu. Mae'r dull matrices yn helpu i rannu'r baich, ond mae angen i Gymdeithasau Twristiaeth gynllunio ar gyfer olyniaeth hefyd - pennu terfynau amser ar gyfer y rolau, er enghraifft penodi dirprwyon ar gyfer rolau allweddol a rhoi cyfle i gyflwyno gwaed newydd.

Mae mwyafrif y Cymdeithasau Twristiaeth yng Nghymru'n fudiadau gwirfoddol ffurfiol (h.y. mae ganddynt gyfansoddiad ysgrifenedig a chyfrif banc) ond mae nifer

cynyddol o rai eraill yn rhai anghorfforedig erbyn hyn, fel arfer fel Cwmnïau Cyfyngedig drwy Warant neu Gwmnïau Buddiannau Cyhoeddus. Mae manteision sylweddol ynghlwm wrth ymgorffori o ran cyfyngu ar atebolrwydd personol, prosesau tryloyw cyfraith cwmnïau a'r gallu i gofrestru ar gyfer TAW, ond mae hefyd yn dod â chyfrifoldebau adrodd ffurfiol a gall olygu eu bod yn agored i dalu'r Dreth Gorfforaeth. Mae mwy a mwy o gyllidwyr allanol a phartneriaid busnes hefyd am gael y sicrwydd sy'n dod yn sgil ymgorffori.

Sawl ffynhonnell cyllido a sefydlogrwydd ariannol

Fel pob busnes bach, mae angen i Gymdeithasau Twristiaeth rannu eu risgiau o ran ffrydiau incwm a gweithgarwch busnes, a chadw cronfeydd wrth gefn ar gyfer 'diwrnod glawog'. Gall gorddibynnu ar un ffynhonnell ariannol beryglu'r mudiad, a gall cyllid gan y sector cyhoeddus olygu gofynion ychwanegol o ran gwneud ceisiadau a phrosesau gwerthuso, anawsterau llif arian, cyfnodau heb arian a symud Cymdeithasau i ffwrdd oddi wrth eu dibenion craidd wrth iddynt orfod neilltuo mwy a mwy o amser yn chwilio am arian. Mae Cymdeithasau Twristiaeth yn meddwl am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt i gyflawni eu dibenion craidd yn gyfnewid am yr arian maent yn ei gael gan amrywiaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol. Maent yn meddwl am gynyddu'r ffynonellau incwm hynny sydd o fewn eu rheolaeth ac sy'n cynnig dilyniant o flwyddyn i flwyddyn.

Bydd y rhanddeiliaid hynny am wybod hefyd am eich cyflwr ariannol felly mae'n bwysig eich bod yn gallu dangos mantolen elw a challed i ddangos eich bod yn werth yr arian dros amser.

Ymrwymiad pendant i weithio mewn partneriaeth o fewn a thu hwnt i'w 'thiriogaeth'

Nid yw ymwelwyr yn parchu ffiniau - boed y rheini'n llinellau ar fapiau neu rhwng sectorau o fewn y diwydiant twristiaeth, felly mae'n bwysig hefyd ein bod yn rhannu safbwynt yr ymwelydd. Darparwyr llety yw mwyafrif aelodau llawer o gymdeithasau twristiaeth cyrchfannau. A ydych chi mewn cysylltiad â'r holl

elfennau eraill hynny o brofiad yr ymwelydd? A ydych chi'n edrych ar gymdogion fel cystadleuwyr ynteu fel partneriaid?

Ymrwymiad i gyfathrebu mewnol ac allanol gyda phwynt cyswllt pwrpasol

Mae Cymdeithasau Twristiaeth llwyddiannus yn allblyg eu natur gyda chynllun clir i gyfathrebu â phawb, o fewn neu'r tu allwn i'r gymdeithas, sy'n cael eu heffeithio gan eu gweithgareddau. Ond, hyd yn oed yn yr oes ddigidol, gall cyfathrebu effeithiol ofyn am lawer o'i hadnoddau. Wrth gwrs, mae cyfathrebu'n broses ddwyffordd; beth am y rhai hynny sydd eisiau cysylltu â chi - a oes gennych chi bwynt cyswllt penodedig ac ymatebol gydag enw ac amrywiaeth o sianelau - ffôn, e-bost, cyfryngau cymdeithasol ac yn y blaen?

Ymagwedd gynhwysol tuag at aelodaeth / a neu gyfranogiad

Mae angen i bob Cymdeithas Twristiaeth osod nod o ran credoau a rennir a safonau busnes moesegol, ond bydd dull agored a chynhwysol o recriwtio'n meithrin twf a bywiogrwydd. Efallai bod hyn yn swnio braidd yn amlwg, ond meddylwch am y rhwystrau y gallwch (hyd yn oed yn anfwriadol) fod yn eu rhoi yn ffordd mwy o fusnesau twristiaeth ac unigolion rhag cymryd rhan - lefelau ffioedd, amser a lleoliad cyfarfodydd a digwyddiadau, meini prawf aelodaeth, ystod cyfathrebu.

Lefel uchel o dreiddgarwch yn ei chymuned buddiant ei hun - i ddangos bwriad sy'n wirioneddol gynrychioliadol

Efallai nad yw maint yn hollbwysig - yn enwedig i'r mudiadau hynny sy'n gweithio mewn meysydd mwy arbenigol yn y diwydiant twristiaeth - ond mae awdurdod yn hanfodol, a gyda hynny rhaid dangos yn eglur bod Cymdeithas Twristiaeth o ddifrif wrth gynrychioli'r gymuned fuddiant mae'n ei thargedu. A ydych chi wedi pennu targedau i dreiddio i'r farchnad yn ogystal ag incwm, er enghraifft? A oes gennych chi bobl ddylanwadol ar y bwrdd?

Y gallu i gyrraedd maint sy'n ei gwneud yn fwy hunan gynhaliol

Unwaith eto, gall maint y Gymdeithas Twristiaeth gael ei bennu gan y farchnad a dargedir, ond mae tystiolaeth o Gymru a mannau eraill yn awgrymu mai cymdeithasau twristiaeth gwirioneddol gynaliadwy yw'r rhai hynny sydd ag adnodd dynol pwrpasol yn ganolog iddynt, gan roi pwyslais ar gyfathrebu a gweithgareddau proffidiol. Mae hyn yn rhagdybio mäs critigol o incwm. Yn y mudiadau hynny, gall codi ffi ymaelodi sylfaenol hyn olygu'r angen i ddenu tua 100 o aelodau. Bydd cael mwy o randdeiliaid i ymgysylltu hefyd yn cynyddu ei hygredd a'i hawdurdod. A yw eich Cymdeithas wedi gwneud ei chyfrifiadau? Faint ydych chi am dyfu? A oes digon o gyfleoedd i fwydo'r tyfiant hwnnw?

Gweithgareddau pwrpasol, positif ac sy'n codi gobeithion - creu ymdeimlad o gyffro

Mae twristiaeth yn golygu creu profiadau hwyliog a cofiadwy ar gyfer ein hymwelwyr. Mae'r un peth yn wir am eich rhanddeiliaid - mae angen iddynt deimlo bod eu buddsoddiad (mewn amser ac ymdrech yn ogystal ag arian) yn y Gymdeithas yn cael ei wobrwyo, nid fel trafodion busnes yn unig, ond gall fod eu cysylltiad â chi'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w busnes ac yn dod ag ymdeimlad heintus o gyffro. Gall rhedeg busnes twristiaeth bychan fod yn waith unig, felly peidiwch â diystyru pwysigrwydd agweddau cymdeithasol a rhwydweithio eich Cymdeithas.

Arweinyddiaeth glir gan y sector preifat sy'n adlewyrchu 'personoliaeth' eu mudiad

Mae Cymdeithasau Twristiaeth yn fudiadau ar gyfer y diwydiant twristiaeth sy'n cynnwys gweithredwyr sy'n ymdrechu i gynhyrchu gweithgarwch twristiaeth ac incwm, ond maent hwy eu hunain hefyd yn fusnes twristiaeth bychan, felly maent yn gofyn am arweinyddiaeth sydd ag elfen fasnachol ynghlwm wrthi. Er bod perthynas gref a phositif â'r sector cyhoeddus yn rhywbeth i'w ddeisyfu, nid yn unig i ddatblygu partneriaethau cyrchfan llwyddiannus, nid ellir tybio fod Cymdeithasau'n gynaliadwy os yw'r berthynas hon yn datblygu i fod yn

ddibyniaeth. Nid yw hynny'n golygu bod holl ymgeiswyr y sector preifat yn arweinyddion naturiol - mae'n bwysig bod y rhai a ddewisir i arwain y Cymdeithasau'n cael eu parchu gan randdeiliaid a'u bod wedi ymrwymo i weledigaeth, nodau ac amcanion y mudiad, ynghyd ag agwedd entrepreneuriaidd i ddatblygu'r busnes.

Ymagwedd fasnachol a phroffesiynol tuag at weithgarwch 'gwirfoddol'

Mae'n hawdd weithiau drysu rhwng 'gwirfoddol' ac 'amatur'. Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau twristiaeth yn rhai gwirfoddol, ond mae'r rhai sy'n gysylltiedig â'u llywodraethu a'u gweithgarwch ymhell o fod yn amaturiaid. Mae Cymdeithasau llwyddiannus yn mabwysiadu'r arferion busnes gorau a hynny am resymau da - hyd yn oed os yw eu trosiant a'u gweithgareddau weithiau ar raddfa gymharol fach, mae angen iddynt warchod yn ofalus iawn eu henw da, eu hatebolrwydd a'u hygrededd. Mae hefyd yn golygu mwy na chynllunio busnes yn unig. A ydych chi'n hysbysebu ac yn cyfweld aelodau'r bwrdd / pwyllgor yn erbyn swydd ddisgrifiad eglur? A ydych chi'n cynnig hyfforddiant i'r rhai sy'n rheoli eich gweithgareddau? Wrth lwc, mae help ar gael i ddatblygu eich pobl a'ch cymdeithas, naill ai trwy Busnes Cymru www.businesswales.gov.uk, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru www.wcva.org.uk, awdurdodau lleol, neu nifer o'r cymdeithasau gwirfoddol sirol.

Astudiaethau Achos o Gymaryddion

Cymaryddion

Yn seiliedig ar yr enghreifftiau a ganfuwyd yn ystod ymchwil ddiweddar mae nifer o ddulliau enghreifftiol ar gael i weithio tuag at fod yn fudiadau mwy cynaliadwy. Gwyddom fod cyrchfannau ledled Cymru e.e. Sir Benfro eisoes wedi dechrau edrych ar rai o'r opsiynau hyn.

Ledled y DU mae carfan o Fyrddau Twristiaeth etifeddiaeth yn dod i'r amlwg e.e.

- Visit Cornwall (www.visitcornwall.com/industry)
- Cumbria Tourism (www.visitcumbria.org)

- Visit Kent (www.visitkentbusiness.co.uk)
- Shropshire Tourism (www.shropshiretourism.co.uk)
- Northumberland Tourism (www.northumberlandtourism.org)

lle mae'r Mudiad Aelodau Twristiaeth yn gweithredu fel y Mudiad Rheoli Cyrchfan (yn hytrach na bod yn bartner yn unig ynddo). Mae'r rhain i gyd yn cael ei cydnabod fel partneriaid cyrchfannau gan Visit England (Visit Britain)

Gan weithredu mewn cyrchfannau sirol mawr ond nad ydynt o reidrwydd yn rhai poblogaidd maent wedi symud o'r sector cyhoeddus i'r preifat gan gadw enw da'r Bwrdd Twristiaeth 'swyddogol'. Maent yn codi arian trwy nawdd, partneriaethau brand a gweithgarwch masnachol yn ogystal â busnesau unigol. Mae ffioedd aelodau wedi'u cysylltu'n bennaf â buddiannau marchnata ac eto gyda chysur cysylltiad ag ymgyrchoedd cyrchfannau 'swyddogol'. Mae gweithredu ar lefel sirol yn golygu darbodion maint a thîm gweithredol proffesiynol cynaliadwy. Fel enghraifft, mae ffioedd Visit Cornwall yn amrywio o £93 i £665 y flwyddyn.

Mae Visit Cornwall a Cumbria Tourism wedi bod yn frwd eu cefnogaeth i'r cynllun 'fairbooking' sy'n golygu eu bod ar ochr y darparwyr llety bychain sy'n gorfod wynebu cyfraddau comisiwn yr Asiantaethau Teithio Ar-lein. Mae gan Visit Cornwall set gadarn o werthoedd brand a stori wych ochr yn ochr â'i becyn aelodaeth, gweler:

https://www.visitcornwall.com/sites/default/files/generic_files/Visit%20Cornwall%20Membership%20Booklet%202016.pdf

Mae Visit Kent a Visit Shropshire yn cynnig hysbysebu am ddim i bob busnes twristiaeth ond mae aelodau'n cael sylw mwy blaenllaw ar wefannau ac mewn ymgyrchoedd.

Gan ddilyn model busnes yr Ardaloedd Gwella Busnes (BID) - cynllun busnes, cronfeydd craidd wedi'u codi trwy ardoll ar ardrethi busnes, cylchoedd cyllido 5 mlynedd, yr oedd busnesau cymwys wedi pleidleisio arno, strwythur corfforedig - mae sawl BID Twristiaeth sy'n gweithredu yn y DU sydd wedi cymryd aelodau a

rolau'r Sefydliadau Rheoli Cyrchfannau blaenorol yn **Inverness and Loch Ness** (www.visitinvernesslochness.com/trade) **Great Yarmouth** a **Torbay** (www.trtbid.co.uk) sydd wedi cadw statws cyrchfannau 'swyddogol' gyda Visit Scotland a Visit England Yn **Lincoln** (www.lincolnbig.co.uk) mae'r BID canol y ddinas hefyd wedi ymgymryd ag ystod o swyddogaethau gan gynnwys gweithredu'r TIC. Yn ôl ei flwyddyn adrodd ddiweddaraf roedd ei drosiant dros £1.3m, gyda'i hanner yn cael ei wario ar Farchnata a Digwyddiadau. Mae sawl BID yn awr yn weithredol yng Nghymru a gellid eu hannog i ymgymryd â chylch gwaith economi ymwelwyr ehangach.

Yn nes at adref rydym yn gweld mwy o atebion hybrid er bod amlygiad i farchnata yn allweddol i gynyddu aelodaeth:

Gan weithredu mewn rhannau o 3 sir a 2 wlad, mae gan **Gymdeithas Twristiaeth Dyffryn Gwy a'r Fforest Ddena** (<https://wydeantourism.biz/members>) gyfrifoldeb uniongyrchol am wefan y gyrchfan, sy'n cynnwys rhestrau cynhwysfawr er bod aelodau'n cael mwy o sylw yn ogystal ag amrywiaeth o fuddiannau eraill. Mae'r ffioedd yn amrywio rhwng £50 a £350. Mae'r Gymdeithas yn dal i ddibynnu i raddau helaeth ar gyfraniad gwirfoddolwyr i gyflawni ei holl swyddogaethau a'i gwasanaethau ond mae'n cyflogi cyfarwyddwr gweithredol rhan amser ar delerau ymgynghorydd i wneud gwaith marchnata, cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau cyhoeddus a recriwtio. Mae WVFDTA yn bartner allweddol mewn materion Rheoli Cyrchfannau, gyda dyheadau i gael ei weld fel y DMO mewn amser.

O dan nawdd Partneriaeth Datblygu Cynaliadwy ehangach, **Twristiaeth Bannau Brycheiniog** (www.breconbeaconstourism.org) yw'r prif bartner masnachol gyda rhan yn y wefan cyrchfannau (gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol) ac mae'n ymgymryd â gweithgarwch yr ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol ehangach yn ogystal â chynnig buddiannau i'r aelodau. Mae'r ffioedd ymaelodi'n amrywio o 52.50 i £262.50. Unwaith eto, mae cyfraniad gwirfoddolwyr yn bwysig, ond mae BBT yn cyflogi Cyfarwyddwr rhan amser. Mae llawer o grwpiau cymunedol lleol neu rai sy'n seiliedig ar gynhyrchion ledled y Bannau ac mae'r

rhain at ei gilydd yn gysylltiedig â BBT ac wedi'u cynnwys mewn gweithgarwch cyfathrebu.

Dylid nodi fod nifer aelodau'r mudiadau uchod yn cael eu mesur mewn cannoedd, ac nid mewn degau. Yn achos pob un roedd pryderon yn cael eu mynegi ar y dechrau ynglŷn â chynyddu ffioedd i gyrraedd lefelau mwy hyfyw ond mae'r niferoedd wedi parhau'n gryf. Mae pob un wedi dilyn cynllun busnes manwl a gonest. Nid yw'n syndod ychwaith bod arweinyddiaeth gref gan unigolion penodol, yn wirfoddolwyr a staff cyflogedig, wedi chwarae rhan bwysig yn eu llwyddiant a'u twf.

O ran grwpiau sy'n cynrychioli'r sector nad yw eu sylw pennaf ar farchnata, y rhai â sylfaen aelodaeth a chylch gwaith DU gyfan, e.e. mae BHA a BHHPA yn cael eu gweld fel enghreifftiau da. Un sydd â dim ond un aelod yng Nghymru ar hyn o bryd, ond sydd ag aelodaeth gref yn yr Alban a Lloegr yw'r **Association of Leading Visitor Attractions (www.alva.org.uk)**. Mae aelodaeth yn agored i atyniadau unigol, gweithredwyr atyniadau aml safle neu gonsortia o atyniadau penodol sy'n denu cyfanswm o fwy nag 1 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn. Cylch gwaith ALVA yw eiriolaeth, cyfnewid arferion da, rhwydweithio a datblygiad proffesiynol a meincnodi. Mae'r aelodau'n cynnwys atyniadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac sydd â mynediad am ddim neu trwy dalu.